Cofnodion cryno – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Ionawr 2022

Amser: 09.05 – 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12574

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Delyth Jewell AS (Cadeirydd) Hefin David AS Alun Davies AS Heledd Fychan AS Samuel Kurtz AS (yn lle Tom Giffard AS) Carolyn Thomas AS
Tystion:	Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru Jason Thomas, Llywodraeth Cymru Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru Andrew Gwatkin, Llywodraeth Cymru Paula Walsh, Llywodraeth Cymru Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

	Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru Bethan Webb, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Lleu Williams (Clerc) Martha Da Gama Howells (Ail Glerc) Tanwen Summers (Dirprwy Glerc) Robin Wilkinson (Ymchwilydd) Osian Bowyer (Ymchwilydd) Rhun Davies (Ymchwilydd) Nia Moss (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Tom Giffard AS ac roedd Samuel Kurtz AS yn bresennol fel dirprwy. Dymunodd y Pwyllgor wellhad buan i Tom Giffard ac roedd yr aelodau'n edrych ymlaen at ei groesawu'n ôl yn fuan.

1.4 Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd Heledd Fychan AS, Carolyn Thomas AS a Samuel Kurtz fuddiannau perthnasol.

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi a'r Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip.

2.2 Cytunodd y Gweinidogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â'r sesiwn graffu.

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Cysylltiadau rhyngwladol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog.

3.2 Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â'r sesiwn graffu.

4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Y Gymraeg

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â'r sesiwn graffu.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Ôl-drafodaeth breifat

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y materion a godwyd yn y cyfarfod.

8 Adolygu amserlen y pwyllgor a'i gylchoedd gwaith

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i drafod ei ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes y tu allan i'r cyfarfod hwn.